COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMSAR DDYDD LLUN, 30 MEDI 2025 AM 10:00

Presennol

Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Easterbrook | R Williams | J E Pratt | RM James |
| RJ Collins | H T Bennett | A R Berrow | S J Bletsoe |
| H Griffiths | P W Jenkins | | |

Presennol o bell

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Llewellyn-Hopkins, C Davies ac O Clatworthy

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Katie Wintle | Cyfreithiwr |
| Kirsty Evans | Senior Licensing Officer |

Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd S Bletsoe fuddiant personol gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Cymunedol Coety Uchaf, llywodraethwr Ysgol Gynradd Pen y Bont a sefydliadau gwirfoddol amrywiol eraill sydd ar adegau yn gwneud cais am hysbysiadau digwyddiadau dros dro.

Datganodd y Cynghorydd S Easterbrook fuddiant personol gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.  Dywedodd ei fod yn fasnachwr yng nghanol y dref ac yn aelod o Fforwm Masnachwyr Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd hefyd ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, dywedodd fod cyfundrefnau Cynllunio a Thrwyddedu i aros ar wahân i raddau er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd

## 45. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Decision Made | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 21/05/25 fel rhai gwir a chywir. |
| Date Decision Made | 30/09/25 |

## 46. Datganiad o Bolisi Trwyddedu ac Asesiad Effaith Gronnol

| | |
|---|---|
| Decision Made | Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu, a'i bwrpas oedd darparu Datganiad drafft arfaethedig o’r Polisi Trwyddedu (DPT) ynghyd ag Asesiad Effaith Gronnol (AEG) drafft i'w ystyried a'i nodi cyn mynd i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo.<br><br>Bu trafodaeth rhwng aelodau a swyddogion a gyfeiriodd at y materion canlynol:<br><br>• Soniwyd am bryderon ger Wyndham Street a Market Street ynghylch y dadansoddiad o'r problemau'n gysylltiedig â materion trwyddedu yng nghyffiniau'r dref, a oedd yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ac anhrefn, nid yn unig mewn sefydliadau a oedd yn rhan o economi nos y dref, ond hefyd gydag yfed alcohol yn strydoedd canol y dref gan aelodau o'r cyhoedd. Gofynnwyd pam bod sôn am ardaloedd penodol pan mai dim ond 1 eiddo trwyddedig ar Wyndham Street roedd yr aelod yn ymwybodol ohono.  Roedd sôn pellach am ardaloedd eraill ger Market Street ond nid Market Street ei hun lle roedd yr aelod yn teimlo nad oedd y AEG yn adlewyrchu'n gywir sefyllfa ardaloedd lle roedd trosedd ac anhrefn yn gyffredin ar hyn o bryd. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu mai pwrpas y cyfarfod oedd adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Heddlu fel rhan o'r AEG ac os nad oedd aelodau yn fodlon â’r dystiolaeth oedd ar gael i gefnogi'r AEG yn ei fformat presennol, roedd gan aelodau'r opsiwn i dynnu'r AEG o'r materion i’w hystyried i'w cymeradwyo,  gan nad oedd hyn yn rhan o'r Datganiad Polisi Trwyddedu.<br><br>• Dywedodd aelod y dylid ailystyried mabwysiadu polisi i lywodraethu economi'r nos gan yr |

| | |
|---|---|
| | Awdurdodau Lleol pe bai'n golygu bod darpariaethau'r polisi yn ei gwneud hi'n heriol i rai mathau o fusnesau weithredu. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu drwy ddweud nad yw'r AEG wedi newid y ffordd sylfaenol y gwneir penderfyniadau trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu, felly byddent yn cael eu hadolygu fesul achos a byddai'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais am drwydded ddangos na fyddai eu cais yn ychwanegu at y lefelau uchel o droseddu ac anhrefn mewn ardal benodol, er enghraifft o fewn yr hyn a ystyrir fel Ardal Dirlawnder Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>• Gofynnodd aelod a oedd angen asesiadau tebyg mewn trefi eraill fel Maesteg, Pencoed a Phorthcawl. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu bod gofyn i'r heddlu adolygu eu data i benderfynu a fyddai AEG yn addas yn y trefi hyn. Fodd bynnag, nid oedd eu canfyddiadau yn dangos tystiolaeth uchel mewn perthynas â'r ardaloedd hynny ac roedd eu canfyddiadau'n gysylltiedig ag ardaloedd o Ben-y-bont ar Ogwr yn unig fel y soniwyd yn yr adroddiad.<br><br>• Tynnodd aelod sylw at y dyddiad ar y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr Heddlu a nododd fod y data yn flwyddyn oed ac y gofynnodd am y posibilrwydd o ohirio penderfyniad nes bod data mwy diweddar ar gael. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y byddai'r data bob amser yn hanesyddol, oherwydd yr adegau pan fyddai adolygiadau o'r polisi yn cael eu cynnal. Dywedodd, o ran oedi'r adroddiad, fod gofyniad i gydymffurfio â dyletswydd statudol yr ALI i adolygu'r polisi ac felly roedd gofyn i aelodau wneud penderfyniad ond gallai eu penderfyniad fod i beidio â chefnogi'r AEG.<br><br>• Holodd aelod am gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas ag ardaloedd a ystyriwyd o dan yr Asesiad Effaith Gronnol (AEG). Ymatebodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu drwy ddweud bod y ddwy elfen i'w trin ar wahân gan eu bod yn ddeddfwriaeth wahanol, ac nid mater i'r Pwyllgor oedd hynny, ond mater i adrannau eraill o fewn y Cyngor.<br><br>• Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r atodiadau a chodwyd pryderon ynglŷn â chymeradwyo'r AEG fel yr oedd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ar y sail bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru yn hen ac yn annigonol. Soniodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu ei bod yn bwysig nodi amserlen ar gyfer cyrchu data gan yr Heddlu, gan y byddem yn dibynnu ar adnoddau'r Heddlu.<br>Cynigiodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y gellid tynnu'r AEG o bolisi'r ALI ac, yn dilyn ymgynghoriad, y gallai'r adroddiad ailddechrau'r broses ar gyfer cymeradwyaeth. Dywedodd y gallai'r ALI gysylltu â'r Heddlu ar yr un adeg â gweithredu'r prosesau hyn, i gael tystiolaeth well a mwy cyfoes na'r hyn a oedd gan aelodau o'u blaen yn y cyfarfod hwn. Byddai hyn yn galluogi dyletswydd statudol yr ALI i gymeradwyo polisi a'i gyflwyno i fynd i'r cabinet a'r cyngor cyn diwedd y flwyddyn. |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Felly, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol gymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol, ar ôl dileu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r AEG, oedd angen rhagor o wybodaeth gan Heddlu De Cymru er mwyn cael ei hystyried yn llawn. Nododd y Pwyllgor y bydd hyn yn destun cyfnod ymgynghori o bythefnos ac efallai y bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd i'r Pwyllgor i'w ystyried ymhellach yn dibynnu ar yr ymatebion. |
| Date Decision Made | 30/09/2025 |

## 47. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Decision Made | Dim |
| Date Decision Made | 30/09/2025 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:04.